

Cystadleuaeth 82

Y Tlws Ieuenctid

Buddugol: Awen sef Heledd Edwards, Hafan, Talerddig

Ffugenw: Awen

82. Tlws Ieuenctid: Casgliad o 3 darn o waith gwreiddiol.

Annwyl gyfeillion,

Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd wedi clywed y gri gan ffermwyr am "Ddim Ffermwyr, Dim Bwyd, Dim dyfodol", ac wedi clywed y straeon am eu protestiadau yn dilyn cyhoeddiad Rachel Reeves i gyflwyno'r dreth etifeddiaeth ar ffermydd. Mae hyn wedi uno'r gymuned amaethyddiaeth ac wedi tanio fflam ynddynt i amddiffyn eu ffermydd bregus, fel y gallant drosglwyddo eu ffermydd teuluol gwerthfawr i'w plant a chenedlaethau'r dyfodol. Mae ein ffermwyr wedi ffermio'r tir ers canrifoedd, wedi gwella ansawdd y tir, ac wedi bwydo'r genedl ers blyneddau. Sut allwn ni yng Nghymru sefyll wrth i wead ein gwlad gael ei ddinistrio yn yr ymgais i godi arian ar gyfer coffrau Prydeinig gan Weinidog Llafur Lloegr?

Ydych chi'n gwybod beth yw'r newidiadau i'r dreth etifeddiant ar ffermydd? Gadewch i mi ddweud wrthyf am y cyhoeddiad. Yn ystod cyhoeddiad cyllideb yr hydref ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd y canghellor Rachel Reeves newidiadau i'r dreth etifeddu, ac fe wnaeth hyn sbarduno dicter a rhwystredigaeth ymhlith y cymunedau ffermio yng Nghymru a'r DU. Ond beth yw'r newidiadau? O fis Ebrill 2026 ymlaen, byddai trethi yn berthnasol i asedau amaethyddol gwerth dros £1 miliwn. Mae'r llywodraeth wedi dweud y byddai hyn yn effeithio ar y tirlfeddianwyr cyfoethocaf a'r rheiny sy'n prynnu tir er mwyn osgoi treth. Mae grwpiau ffermio wedi dadlau bod y polisi yn fgythyad i ddyfodol fframio teuluoedd a diogelwch bwyd yn y DU. Gallai'r newid sylweddol i reolau treth etifeddiaeth effeithio ar filoedd o ffermwyr ledled y DU, ac mae'r goblygiadau i'n cenedl fach yn drychinebus, oherwydd y gall hyn rwygo cymunedau ar wahân.

Byddai'r dreth etifeddiaeth yn taro fy ngheulu i, gan fod fy ngheulu wedi gweithio trwy gydol eu bywyd ar gyflogau bach, ond roedden nhw'n gallu trosglwyddo'r fferm i'w plant. Gyda'r dreth etifeddiaeth ar ffermydd, ni fydd fy ngheulu yn gallu trosglwyddo'r fferm i genedlaethau'r dyfodol. Mae Tŷ Cerrig, ein fferm deuluol yn fferm hunan-gynaliadwy, ac ni fyddem ni fel teulu eisiau colli hynny oherwydd polisiâu'r llywodraeth nad ydynt wedi ystyried barn ffermydd teuluol bach. Rwyf wedi gweld a chlywed straeon am ffermwyr sy'n marw'n ifanc oherwydd damweiniau ar ffermydd, ac felly nid yw teuluoedd yn barod, a bydd yn rhaid iddynt boeni am dalu'r dreth etifeddiaeth pan ddaw'r polisiâu newydd i rym.

Mae ffermwyr, a oedd wedi cael sicrwydd y byddant yn gallu trosglwyddo tir amaethyddol heb wynebu biliau treth, bellach yn wynebu cyfundrefn dreth newydd sy'n bygwth tanseilio'r addewid. Ond beth mae'r llywodraeth wedi'i ddweud? Mae llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y newidiadau yn effeithio ar y "500 fferm gyfoethocaf bob blwyddyn", ond mae grwpiau ffermio yn dadlau y gallai cymaint â 70,000 gael eu heffeithio. Yn fy marn i, bydd yn effeithio ar y ffermydd teuluol bach yn hytrach na'r corfforaethau mawr mewn ffermio oherwydd bydd y corfforaethau mawr yn dod o hyd i ffordd allan o beidio â thalu'r dreth etifeddiaeth, a bydd yn gadael y ffermydd teuluol bach i dioddef. Yn dilyn y cyhoeddiad yn ôl ym mis Hydref 2024, rydym wedi gweld ymateb gan ffermwyr a'r gymuned amaethyddol, gyda llawer o brotestiadau wedi bod ledled y wlad yn arddangos ei dicter, rhwystredigaeth, a'u drwgdeimlad. Mae llawer o ffermwyr hŷn yn teimlo'n artaith ac yn poeni oherwydd y byddai eu marwolaeth yn achosi baich ariannol ar eu teulu ac ni fyddent yn gallu rheoli'r sefyllfa. Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn gwybod am rywun sydd â chefnidir mewn ffermio - onid yw'n frawychus meddwl am y straen ychwanegol y gallai eich ffrindiau fod yn ei deimlo.

Mae ffermwyr yn gweithio ym mhob tywydd ac amodau p'un a yw'n heulog, yn bwrw glaw, yn wyntog, yn bwrw eira neu yn oer. Dyma eu swydd, a'r ffordd maen nhw'n byw eu bywyd! Mae angen i ni amddiffyn hyn!

Rwy'n gobeithio y bydd y llywodraeth yn gwrando ar y lobi ffermio ac y bydd yn newid eu meddyliau ar y dreth etifeddiaeth ar ffermydd a bydd yn gweld nad dyma'r ffordd i amddiffyn ffermydd teuluol bach. Rwy'n gobeithio y bydd ffermwyr yn gallu trosglwyddo eu ffermydd gwerthfawr i'w plant a chenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n gobeithio y gallwn fyw mewn byd lle mae ffermwyr yn cael eu trin yn well ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud i'r wlad. Rwy'n gobeithio y bydd ffermwyr yn cael mwy o arian ar gyfer eu cnydau yn y dyfodol oherwydd nad yw'n rhad i redeg fferm, ac nid yw'n hawdd byw ar gyflogau isel. Rwy'n gobeithio y gall plant ddilyn yn ôl troed cenedlaethau blaenorol sydd wedi gweithio mor galed ar gyfer eu dyfodol! Cofiwch "Dim Ffermwyr, Dim Bwyd, Dim Dyfodol", a ddylai'r llywodraeth hyn roi'r gorau i ladd y bobl sy'n ei bwydo oherwydd mae llawer o ffermwyr yn credu bod y dreth etifeddiaeth ar ffermydd yr "hoelen olaf yn yr arch amaethyddol". Mae'r geiriau hyn yn ddinistriol, trychinebus a phwerus! Mae angen i ni amddiffyn y ffermydd teuluol ac ymladd mewn undod ar gyfer ein dyfodol ni fel plant a'r cenedlaethau i ddod.

Gwreiddiau

Yr oedd y pentref yn ymddangos fel llun wedi'i gwasgaru ar gof y tir, ei dai â tho gwellt a'i lwybrau culion yn ymdroelli fel gwythiennau mewn carreg. Yma, yng nghanol dyffryn a phob tŷ'n clwydo'n ddwfn yn nythu rhwng y brynau, roedd hanes yn bwrw'i wreiddiau'n ddwfn i'r pridd. Roedd popeth yn cysylltu â'r gorffennol, fel pe bai'r tir ei hun yn cofio pob cam a gymerwyd drosto.

Yn y pentref hwn, magwyd Efa. Merch â chalon gref a meddwl chwilfrydig, ond gyda theimlad anesmwyth yn bytheirio yn ei chalon. Roedd yn caru'i chartref, ond bob amser roedd llais bach yn ei chlustiau'n ei hudo i chwilio am rywbeth pellach, rhywbeth nad oedd yn perthyn i'r tir hwn. A thros amser, tyfodd yr awydd hwn fel hadyn yn torri drwy'r pridd.

Roedd ei theulu wedi byw yma ers cenedlaethau, a doedd neb wedi mentro i ffwrdd. Yr oedd straeon ei nain yn llawn o sôn am sut roedd y tir yn siarad, sut roedd y coed yn cofio, a sut roedd dŵr yr afon yn cario atgofion hen filwyr a phererinion. Roedd pob carreg, pob llwyn yn rhan o stori oedd wedi'i gwreiddio'n ddwfn. Ond nid oedd hynny'n ddigon i Efa. Roedd ei chalon yn dyheu am rywbeth nad allai roi ei bys arno.

Un noswaith, wrth gerdded ymyl y goedwig lle'r arferai'i thad weithio fel gof, safodd Efa a chau ei llygaid. Roedd y gwynt yn anwesu'i bochau, a'r ddaear o dan ei thraed yn teimlo'n gynnes, fel petai'n anadlu. Yna, clywodd lais— nid llais dynol, ond rhywbeth hynafol, dwfn, a thyner fel cân hir sefydlog. "Dychwelyd," sibrydodd y llais. "Neu bydd y canghennau'n hollti."

Dychrynodd Efa. A oedd hi'n dychmygu? Ai chwedl arall oedd hon wedi gludo drwy'r cenedlaethau? Neu a oedd gwirionedd yn yr hyn a glywodd?

Y bore nesaf, penderfynodd fynd i siarad â'i nain, yr unig un yn y pentref oedd yn deall geiriau'r tir. "Nain, beth yw'r gwreiddiau sy'n ein dal?" gofynnodd Efa. Gwên ddigael oedd yr unig ateb a gafodd, a llygaid ei nain yn disgleirio fel y sêr.

"Mae ein gwreiddiau fel y dderwen fawr ym mlaen y pentref," meddai'r hen wraig. "Y dyfnach maen nhw, y cryfaf ydym ni. Ond weithiau, mae angen gwybod pryd i dyfu cangen newydd."

Wedi blynyddoedd o geisio deall, gadawodd Efa ei chartref o'r diwedd. Aeth i ddinasoedd pell, i wledydd dieithr lle'r oedd yr iaith yn swnio fel tonnau'n torri ar greigiau tramor. Dysgodd sut roedd y byd yn wahanol i'r pentref— swntlyd, llawn brys,

Newyddion Amaeth

2025

Hydref

Rhifyn #1



Treth Etifeddu yng Nghymru: Bygythiad i'n cymunedau gwledig

*A fydd ein cenhedlaeth ni yn cael
parhau i ffermio tir ein cyn-deidiau?*

HEB AMAETH, HEB FAETH

Pan fyddwn yn siarad am amaethyddiaeth yng Nghymru, nid ydym ond yn sôn am bridd a gwartheg – rydym yn sôn am galon ein cymunedau. Bob bore, cyn i'r haul godi, mae miloedd o ffermwyr yn rhoi ei esgidiau ymlaen, yn barod i wynebu diwrnod arall o waith hir ond hanfodol. Ac eto, er gwaethaf eu cyfraniad, mae'n ymddangos fod y llywodraeth yn ei hanwybyddu.

Yn ôl ffigurau diweddar, mae incwm cyfartalog fferm yng Nghymru wedi gostwng **dros 17% ers 2022**, gyda rhai ffermwyr yn gweld eu helw yn diflannu'n llwyr oherwydd prisiau tanwydd, porthiant ac ynni sy'n parhau i esgyn. Mae cost gwrtaith wedi bron dyblu dros y tair blynedd diwethaf, gan roi pwysau anferthol ar fusnesau teuluol. Ar yr un pryd, mae'r pris sy'n cael ei dalu i'r ffermwr am laeth, cig a chnydau yn parhau i lithro i lawr, gyda chwmniau mawr yn dal y grym.



Dyma'r gwirionedd chwerw: rydym yn disgwyl i'n ffermwyr gynhyrchu bwyd i'r genedl, diogelu'r amgylchedd, a chynnal ein diwylliant gwledig – ond heb roi'r offer na'r gefnogaeth deg iddynt wneud hynny. Mae polisiau'r llywodraeth, o Lundain i Gaerdydd, yn aml yn ymddangos fel pe baent wedi'u llunio mewn swyddfeydd dinas, heb glywed unwaith y llais syml o'r buarth.

Rwy'n cofio sgwrs â ffermwr o Geredigion, dyn yn ei bumpdegau, a ddywedodd wrthyf: **"Rwy'n gweithio saith diwrnod yr wythnos, ond weithiau rwy'n gofyn i mi fy hun – a yw'n werth yr holl straen pan fo'r banc yn bygwth, a'r plant ddim yn siŵr os oes dyfodol iddyn nhw ar y fferm yma?"** Mae'r geiriau hynny'n tanio'r pryder mwyaf: os byddwn yn colli ein ffermwyr, rydym yn colli mwy na swyddi – rydym yn colli ein hunaniaeth.

Mae amaethyddiaeth yn fwy na busnes. Mae'n ffordd o fyw. Mae'n frefu'r defaid ar y mynyddoedd, y tirlun sydd wedi'i siapio dros genedlaethau, a'r synnwyr o gymuned sy'n ein cysylltu â'n gwreiddiau. Felly, pam ein bod yn caniatáu i benderfyniadau economaidd oer a byr-weledol dansellio'r dyfodol hwn?

Dyma'r amser i weithredu. Mae angen i'r llywodraeth ddarparu sicrwydd, nid ansicrwydd; buddsoddi mewn seilwaith gwledig, nid ei dorri; a pharchu'r bobl sy'n cynhyrchu ein bwyd, nid eu cosbi gyda biwrocratiaeth ddiddiwedd.

Os nad ydym yn rhoi gwerth ar amaethyddiaeth heddiw, beth fydd gan ein plant yfory? Caeau gwag, bythynnod gwylliau ar bob llechwedd, a phlataiau bwyd llawn mewnforion o wledydd pell. Felly, y cwestiwn mawr sy'n aros yw hwn: a fydd Cymru'n sefyll gyda'i ffermwyr, neu'n eu gadael i suddo dan bwysau system sy'n anghofio mai'r tir yw'r bywyd?



heb amser i wrando ar leisiau'r tir. Ond drwy'r cyfan, bu'r llais yn ei chlustiau, yn atseinio bob tro y syllai ar y sêr, bob tro y teimlai'r gwynt yn cario arogl y môr cartrefol.

Blwyddyn ar ôl blwyddyn, teimlai Efa'r canghennau'n tyfu o'i hochr, yn cyrraedd allan i orwelion newydd. Ond heb sylweddoli, roedd ei gwreiddiau'n parhau i dyfu'n ddyfnach i'r pridd yr oedd wedi ei adael. Pan ddychwelodd, wedi blynyddoedd o deithio, fe sylwodd sut nad oedd y pentref wedi newid fawr ddim, ond bod popeth ynddo'n edrych yn fwy byw nag erioed.

Roedd hi bellach yn rhan o ddau fyd— yr hen a'r newydd. Ac roedd hi'n sylweddoli nad ffoi oddi wrth wreiddiau oedd y nod, ond eu deall, a dod â'r hyn a ddysgodd yn ôl i'w meithrin ymhellach. Fel yr hen dderwen, roedd hi wedi ymestyn ei changhennau i'r wybren, ond yno, yng nghanol y dyffryn, roedd ei gwreiddiau'n parhau i'w dal, yn gadarn, yn gyfan, yn gartref.

Cystadleuaeth 87

Gwaith ffuglen neu ffeithiol

Buddugol: Magdalen sef Elsi Jones – Ysgol Bro Hyddgen

Ail: Mab y Mynydd sef Deio Jones – Ysgol Bro Hyddgen

Trydydd: Sali Mali sef Gwenllian Breeze – Ysgol Bro Hyddgen

'PA' Magi

Bore da, prynhawn da... be bynnag 'di mae'n anodd cofio popeth dyddie 'ma. Ffôn Magi ydw i. Mewn geiriau eraill ei 'PA', na dim 'Pa' fel pa un, 'PA' fel 'cymorthydd personol', 'Pee'a'...'No pun intended' wrth gwrs. Gawn ni weld faint mor hir mae'r batri'n para heddiw, dwi di chargo fyny i 100% er mwyn siarad i chi!

Dwi 'mond di bod yn 'PA' i Magi am flwyddyn, ond diar mi mae'n teimlo fel degawd. Pob munud ma hi'n gofyn am rywbeth, hyd yn oed rywbeth mor fach a eisiau gwybod be di'r amser. Yr hwyl sw ni'n gael os sw ni efo'r llais i ddeud "amser i ti gael oriauwr". Dwi fel ffrind gorau iddi, dwi'm n gwybod faint o bartis dwi di mynd i dros y blwyddyn dwethaf, a faint o weithiau mai di sticio'r hen dafod 'na allan arnai. Be dwi di neud i hi? Dwi'm yn gwybod pa ffordd i gymryd hi erbyn hyn, ydy mewn hwylie da neu drwg? A pheidiwch sôn am faint o weithiau dwi di gorfod newid yr ongl a'r golau, wrth dynnu llun, sôn am wastraff amser, dwi yno am orie. A'r hen fflash gwirion na, fyddai'n ddall cyn iddi droi rownd, a fydd na hen ffys adeg yna. Y cyfan fyddai'n clywed fydd "PAM BO HWN DDDIM YN GWEITHIO RWAN?", "MAM DWI ANGEN FFÔN NEWYDD, DI'R CAMERA DDIM YN GWEITHIO!" Ac wrth gwrs bydd hi'n fy nhaflu ar y llawr, aw mae hynna'n brifo, un tro aral a dwi'n amau fydd yr hen orchudd plastig ma'n torri a fydd y ffôn wîr yn malu adeg yna, ond be sy'n newydd dyddie ma de, dwi di arfer efo'i erbyn hyn. Ochr da i fod yn 'PA' iddi yw cael clywed y 'goss' i gyd. Braf 'di bywyd weithiau. Rhaid fi ddeud mae'n anodd dal fyny a hi hanner yr amser. Dwi'n hanner cysgu'n meddwl am faint o bethau dwi di helpu Magi'i ddod o hyd iddo blwyddyn diwethaf, heb sôn am be sy 'mlaen i blwyddyn yma. Dwi di gweld digon fel mae hi, a dim ond mis Ionawr ydy hi.

Rhaid fi ddeud, pam ma 'na fachgen 'on the go', mae'n byw bywyd hollol wahanol. Mae'r amser sy'n cael ei wario ar y sgrîn tua deg waith yn hrrach na'r arfer, a'r arfer ydy olieaf 7-8awr y dydd os na mwy, felly gallwch chi 'mond dychymygu faint mor uchel mae hwnna pam ma na fachgen i'w siarad i... Drwy'r dydd, bob dydd, dwi 'di cael llond bol a hyna, gadewch i un gysgu ynde! Yr holl sgrînlinau sydd, fydd na'm storfa i ddim byd os ydy hyn yn digwydd bob tro ma na rhywun newydd. Oes wir angen gwybod lle oedd 'so and so' am 7:43yh? Oes yn llygaid Magi. Heb os, dwi dal yn driw i Magi, a mae gweld ei llygaid hi'n goleuo, pam mae hi'n siarad i rhywun newydd, yn teimlo fel dafad yn gweld twr o ŷd. Allai ddim helpu gwylio hi'n gwenu'n wên o glust i glust. Ond, yr eiliad, a dwi'n meddwl yr eiliad mae rhywbeth yn mynd o'i le, mae fel bod ffrwydriad wedi digwydd, neu bron a digwydd. Peidiwch a barnu, mae'n mynd yn boeth tu mewn y ffôn 'ma weithiau. Dwi di gweld hi trwy bob emosiwn, pam mae'n hapus, drist, blin, gyffrous a phopeth rhyngddynt. Peth gwaethaf am y swydd 'PA' ydyd'r oriau. Does na byth sicrwydd ar faint fyddai'n gorfod gweithio. Weithiau, a dim ond weithiau, mae'r shift yn gallu dechrau yn gynnar a gorffen yn gynharach. Well genai hyn i fod yn onest, achos oleiaf allai gael digon o amser i gael seibiant dros nôs. Ond dim dyma sy'n digwydd fel arfer, o nage. Fel arfer mae'r diwrnod yn dechrau tua 12, ac yn gorffen tua 3 y nos. Sori, ond pam gytunais i, i fod yn ran o'r gytundeb ffôn am y 2 flynedd nesaf, nath neb ddeud wrtha i y base'r oriau yn newid pob dydd, neu yn gorffen yn hwyr iawn rhan fwyaf o amser. Dwi'm n gwybod pryd fyddai'n cael noson dechau o gwsg eto.

Sôn am gwsg, un o fy hoff atgofion ydy pam etho ni i Efrog Newydd, ymddiheiriadau dwi'n meddwl Prague, o na sori Barcelona.. O nage ddim sori Tenerife, de chi'n gwybod be dwi jest am ddeud bob tro de ni di mynd ar wyliau dramor. Pam de chi'n gofyn? Wel 'se chi'n meddwl oherwydd yr holl olygfeydd dwi'n ei weld. Ond na, dwi'n hoff iawn o fynd ar wyliau dramor, oherwydd y seibiant sydd ar yr awyren. 'Aeroplane mode!' Y peth gorau sydd wedi cael ei greu. Yr unig adeg pryd mae hi'n sicr ni fydd hi'n gallu fy nefnyddio neu angen yr holl amser ar yr awyren. Efrog Newydd oedd y gorau, tawelwch am 12 awr! Bosib mae dyma oedd y diwrnod gorau o fy mywyd. Deud hyn, yr unig anfantais i fynd ar wyliau dramor ydy bod yr amser yn tueddu newid rhywfaint. Mae hyn yn cymryd ychydig i mi ei gyfarwyddo efo. Allai ddim anghofio sôn am y straen sydd yn trio sortio'r data allan cyn iddi sylwi ei bod hi'n gallu defnyddio'r ffôn eto. Dwn i'm beth se'n digwydd os se hyn ddim yn cael ei sortio mor fuan a phosib.

Rhai adegau, dwi'n hoffi chwarae triciau arni, felly nai aros tua 2 funud yn hrrach yn trio ffeindio cyswllt wê, ond wrth gwrs, dydy hyn ddim digon da felly fuan iawn dwi'n gorfod rhoi'r data i gyd yn ei le a sicrhau bo'r 'plan' cywir yn ei le. A diolch byth bod 'tap to pay' yn beth, pell yw'r diwrnod ble fydd Magi'n penderfynu talu efo arian dramor. Mae hi'n dibynnu arna i bob tro i wneud yr holl gyfrifiadau yn barod iddi. Dwi'm yn gwybod os ydy hi yn deall bo hi'n ddrytach defnyddio fi i dalu na'r arian tramor. Hen bryd iddi ddefnyddio'r ap chyfrifiannell yno. Ta beth 'sw ni'n gallu siarad am oriau, ond nai'm eich diflasu heddiw, tro nesaf efallai.

Ydych chi di clywed am chat GPT? Wel dwi yn sicr wedi, mae'r dechnoleg yma bron a fy nghuro i fel ffrind gorau i Magi. 'Se chi'n meddwl pam ma rhywun yn mynd i Ysgol, bod y ffôn yn cael ei ddiffodd am y dydd, ond na. Dim dyna sy'n digwydd efo Magi. Ers i'r hen ap ma droi'n boblogaidd, dwni'm faint o weithiau mae Magi yn dibynnu arno i helpu hi gyda'i thraethodau, neu unrhywbeth dan haul. I fod yn onest, dwi ddim yn hoff iawn o'r bot gwirion 'na. Trio dwyn fy ffrind i Magi? Dim diolch. Rhaid fi gofio hebda i 'se defnyddio'r ap ddim hyd yn oed yn bosib felly, ti'n gwbo mae hyna wastad yn rhywbeth i gofio. Dwi'n cofio blynyddoedd yn ôl, roedd bod yn ffôn yn syml, base camera, negeseuon, ac ap ffonio. Ond erbyn hyn, mae popeth ar gael, Instagram, Tik Tok, Snapchat, What's app. Adeg yna, yr unig beth oedd yn gymhleth i'w gofio oedd rhifau ffôn. Allai ddim pwysleisio digon faint mor anodd yw hi i gofio rhif ffôn rhywun. Mor fuan a mae Magi yn gwasgu 'save to contact', Dyma pryd mae pethau yn troi. Fel bod genai ddim digon i'w gofio'n barod? 'Ma Bywyd yn anodd de. Pam bod angen i bob rif ffôn gynnwys gymaint o rifau? 0793467- Sorri allai ddim cofio be sy'n dod nesaf... Does na'm dal fyny dyddie 'ma.

Siarad am apiau, peidiwch a dechrau ar yr holl ddiweddariadau sydd angen cael ei wneud. Does dim byd yn nghodi fy nghalon ('not') na gweld angen diweddariad pam dwi ar 5% a pam mae Magi ar fin pwdi'n llwyr. Wrth gwrs gyd sydd angen neud ydy rhoi'r 'charger' ymlaen, ond na dim eto mae hi wastad yn dewis aros tan y fynud olaf pam dwi ar 1%. Wrth gwrs, fi sydd dal yn cael y bai, "Pam bod ti'm yn gweithio?", "Pam mo'r ffôn gwiron yma mor araf?". Wel base synnwyr cyffredin yn deud iddi, "Wel oherwydd dy fod ti ddim wedi fy rhoi i ar 'charge'. Sori nôl i be o ni'n ddeud... Dwi'n trio cadw ar ei ben, ond job di hyna 'de. Felly er mwyn gwneud bywyd yn haws i fi, ond anoddach i Magi dwi ddim yn gwagu'r botwm sy'n cadw'r sgrîn gartref fel mae. Job bach neis i Magi neud hwyrach ymlaen 'di hynna. A dwi'n trio neud synwyr o'r holl ebostio, 'snaps', a negeseuon ond waw mae 'na lawer. Dwi'n gorfod dal popeth. A pam dwi'n deud popeth, dwi'n feddwl hynna. Dim ond rhag ofn bod nhw'n bwysig, a 'spolier' – dyde nhw ddim fel arfer.

O mam bach!!! Cyn i mi anghofio, mae rhaid fi sôn am y larwm. Dyma yw'r darn gwaethaf am y swydd. Pwy benderfynodd bod larwm yn syniad da iawn? Sŵn sydd bron a neud fi'n fyddar bob bore, ac hanner yr amser yn digwydd ar amser hollol afresymol, a pheidiwch a sôn am faint o weithiau mae Magi'n gwagu'r botwm 'snooze'. Dwi ddim hyd yn oed yn meddwl bod hi'n deffro am oleia hanner awr, hanner yr amser. Dwi'n gorfod sgrechian arni fel 'tasai'r byd yn dod i ben. Be sy'n neud fi fynd yn wallgo gyda'i ydi pam mae fi sy'n cael y bai am ei fod hi'n flinedig? Sôn am gelwydd 'de. Be di'r pwynt gosod larwm os di'r larwm ddim hyd yn oed yn ddefnyddiol? Rwtsh llwyr. Sori mae rhaid i fi son am y côd i fynd fewn i'r ffôn. Tua unwaith y mis, de ni'n cel 'chydig o drafferth gyda'r côd. Dwi'n trio'i rybuddio hi, ond 'di byth yn gwrnado. Un ymgais, 'anghywir, dwy ymgais 'anghywir'. 3 ymgais ' un cyfle ar ôl', ac erbyn y pedwerydd ymgais mae'r ffôn di cloi. Sili 'de. Pe bai hi ond yn gwrando'r tro cyntaf ac yn ffocysu yn hytrach na neud yr un peth dro ar ôl tro, siawns ydy base'r côd yn gweithio. Ond dydy Magi ddim yn un am wrando yn dda iawn. Ffordd hi sydd orau o hyd. Wel os de chi'n meddwl bod chi di bod yn flin o'r blaen, dwi'm yn meddwl bod unrhywbeth i gyharu i pam mae hyn yn digwydd, dwi erioed dwi gweld gymaint o ffys! Munud sydd i aros fel arfer, ond i Magi mae hyn yn amlwg yn teimlo fel blwyddyn, gweld hi'n anodd i gyfri i 60 dwi'n meddwl. Bechod, ma bywyd mor mor mor anodd i rywun sydd angen aros munud i fynd ar ei ffôn.

Ond, er gwaethaf popeth, o'r sgrîn yn cracio, yr holl waith diweddarau sydd, yr oriau hir a'r straen. Dwi'n dal i fod yma, yn ei phoced hi, ar ei desg, neu dan ei obennydd hi bob nos. Fi ydy'r peth cyntaf mae hi'n estyn am yn y bore, ar peth olaf mae hi'n ei edrych arno cyn cysgu. Efallai nad ydw i'n cael lawer o ddiolch, ac efallai fy mod i'n cael fy nhafu ar y gwely hanner yr amser. Ond nes bod y batri yma'n rhedeg allan am byth, rwyf am fwynhau'r 11 mis, 8 diwrnod, 7 munud, 49 eiliad sydd ar ôl ar y gytundeb 2 flynedd, o fod yn 'PA' i Magi. Wan, dwi di mwydro digon, rhaid fi fynd wan dwi'n amau bod y batri ar fin marw, gadewch i mi checio... O yndi wîr! 1% Dwi'n meddwl bod y batri 'ma yn mynd lawr yn gyflymach bob dydd. Mae rhaid i fi fynd! Tan tro ne-.


Cystadleuaeth 89

Rhyddiaith 5 a 6

Buddugol: Neli Gwilym Edwards, Safle Dinas Mawddwy, Ysgol Bro Idris

Yn ail: Husqvaena lover, Safle Rhydymain, Ysgol Bro Idris

Yn drydydd: Enfys, Safle Rhydymain, Ysgol Bro Idris



Cystadleuaeth 90

Rhyddiaith blwyddyn 4 ac iau

Buddugol: Anni Roberts, Safle Dinas Mawddwy, Ysgol Bro Idris

Yn ail: Celt, Safle Rhydymain, Ysgol Bro Idris

Yn drydydd: Merin Haf Jones, Safle Llanelltyd, Ysgol Bro Idris

